

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer  
15fed Tachwedd, 2016**

**Presennol:** Eleri Jones (Cadeirydd), Emyr Jones, (Is Gadeirydd), John Morris, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Estynnwyd croeso i bawb ac yn arbennig i PCSO Iwan Roberts, a derbyniwyd ymddiheuriad Alan Jones Evans
2. Cynhaliwyd trafodaeth gyda PCSO Roberts a oedd yn cwmpasu gollwng sbwriel yn anghyfreithlon, gwersylla anghyfreithlon, cyffuriau, achlysur o ddieithriaid yn cynnal gŵyl yn goedwigaeth adeg Gŵyl y Banc, cerbydau 4x4 yn difrodi'r tir wrth deithio'n anghyfreithlon a recriwtio lleol ar gyfer heddwision lleol. Diolchwyd i PCSO Roberts am ei bresenoldeb a'i adroddiad.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Nid oedd datganiadau buddiant.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 12/9/16.
6. Materion yn codi o gyfarfod Medi:
  - a. 5b Ni dderbyniwyd ymateb gan Swyddog CADW Parc Cenedlaethol Eryri i'r pryder am gyflwr Eglwys Santes Gwawr; cytunodd y Clerc i barhau i bwysu am ateb.
  - b. 5c Derbyniwyd gwybodaeth gan Gynghorwyr bydd y goeden wywedig yn y fynwent yn cael ei chwmpo.
  - c. 6a Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn awgrym y Cyngor Cymuned i estyn y cyfyngiad cyflymder wrth bont Mwnwgl y Llyn.
  - d. 6b Mae'r Cynghorydd Sir yn parhau i bwysu am adfer y llinellau melyn wrth y fynedfa i'r Clwb Hwyllo.
  - e. 8 Adroddwyd fod y gwrych ar ffordd Rhydwen wedi ei thocio.
7. Adolygodd y Cynghorwyr y Cofrestr Buddiant.
8. **Y Fynwent:**
  - a. Cytunwyd ar ofynion gwaith cynnal 2017, sef 2 doriad o'r fynwent gyfan ac 1 toriad ychwanegol i'r darn uchaf.
  - b. Adolygwyd ffioedd y fynwent.
9. **Materion ariannol:**
  - a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol.
  - b. Adolygwyd a mabwysiadwyd y Rheolau Ariannol.
  - c. Adolygwyd yr Asesiad o risgiau ariannol i'r Cyngor.
  - d. Gwnaed yr adolygiad blynyddol o gyflog y Clerc a chytunwyd gydag awgrym y Clerc i gadw'r cyflog yr un fath a llynedd.
  - e. Rhoddwyd ystyriaeth i anghenion Cyllideb 2016-17 a chytunwyd ar lefel y Praesept (er nad oedd gwybodaeth wedi dod i law am gost cynnal etholiadau Mai 2017). Cytunwyd i beidio a chodi'r Praesept.
  - f. Nodwyd derbyn barn BDO ar y Ffurflen Flynyddol a rhoddwyd sylw i faterion a godwyd.
  - g. Cytunwyd i wneud y taliad tuag at gostau gweinyddol Partneriaeth Penllyn.
  - h. Cadarnhawyd talu am waith cynnal y fynwent 2016

10. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr, a gyfeiriodd at rybudd o ymddiswyddiad y Cydlynnydd, dyfodol Y Cyfnod a gwasanaethau sy'n debygol o gael eu datganoli gan Gyngor Gwynedd. Cafwyd trafodaeth ar y biniau halen ac awgrymiadau ar sut i gyflenwi yn ôl yr angen pe na byddai Partneriaeth Penllyn yn llwyddo i gael gostyngiad yn y pris. Cytunodd Emyr Jones a Geraint Roberts i wneud arolwg o'r biniau presennol yn yr ardal ac o'r defnydd a wneir ohonynt.

11. **Gohebiaeth:**

**Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i

- a. estyniad i adeilad allanol wrth Bryniau Golau
- b. sied ar dir Troed y Glyn

**Cyngor Gwynedd:**

- a. Ymatebwyd i'r cais am wybodaeth am y nifer sy'n cysgu ar y stryd.
- b. Derbyniwyd gwybodaeth am y bwriad i wneud i ffwrdd a chiosg Rhosygwaliau.
- c. Derbyniwyd gwybodaeth am doriad pellach o 50% i'r gyllideb cynnal llwybrau cyhoeddus.

**Heddlu Gogledd Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am y cyfarfod "Deud eich deud" yn y Ganolfan Hamdden ar 7/12/16 am 6.30.

**Un Llais Cymru:** derbyniwyd gwybodaeth am y rhaglen hyfforddiant ac am y Phwyllgor Ardal.

**Comisiwn Ffiniau** - gofynnwyd i'r Clerc ymateb ar ran y Cyngor a rhannwyd copïau o ymateb posib i'w hanfon gan unigolion.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 9/1/17 am 7.30 yn y Neuadd Bentref, Llangywer

*Amser gorffen: 9.30pm*